**Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AC(2) 04-03(min)**

# COFNODION

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 23 Hydref 2003 |
| **Amser:** | 9.30am tan 11.30am |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br><br>Bae Caerdydd |

## Yn bresennol

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Y Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro (nid eitemau 1 a 2) |
| Denise Idris-Jones | Conwy |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Syr Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| David Richards | Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Tony Edwards | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Colin Williams | Pennaeth yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Lew Hughes | Dirprwy Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ian Summers | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| David Powell | Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.**

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mark Isherwood. Ni fyddai Christine Gwyther yn bresennol ar gyfer eitem 2, yn unol â Rheol Sefydlog 12.7.

**Eitem 2: Iawndal i Ffermwyr am Dwbercwlosis mewn Gwartheg yng Nghymru**

**Papur:** AC(2) 04-03(p1)

2.1 Clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan Syr John Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, David Richards, Prif Swyddog Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tony Edwards, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru a Colin Williams, Pennaeth Is-adran Iechyd Anifeiliaid Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru 'Digolledu Ffermwyr am Dwbercwlosis Buchol yng Nghymru'.

2.2 Ceir trawsgript gair-am-air o Eitem 2 yn Atodiad 1 y cofnodion.

**Pwyntiau gweithredu:**

- **Bydd y Pwyllgor yn cael nodyn ar y sancsiynau cyfreithiol sydd ar gael i ymdrin â chamgeisiadau a chambrisiadau bwriadol a manylion erlyniadau - Colin Williams, Pennaeth yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid.**

***Cafodd y Pwyllgor egwyl am tua 15 munud am 11:00.***

**Eitem 3: Rhaglen o archwiliadau Gwerth am Arian ac Amcangyfrif o Incwm a Chostau Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Papur:** AC(2) 04-03(p2), AC(2) 04-03(p3), AC(2) 04-03(p4)

3.1 Cyflwynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru bapur yn amlinellu'r archwiliadau gwerth am arian a oedd yn yr arfaeth neu ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2003-2004 ac amserlen ar gyfer archwiliadau gwerth am arian arfaethedig ar gyfer blynyddoedd ariannol 2004-2005, 2006-2007 a thu hwnt.

3.2 Soniodd am yr amcangyfrif o incwm a chostau ar gyfer y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2005 ac esboniodd y cais am y cynnydd arfaethedig o £205,000 yn amcangyfrif 2003-04.

3.3 Cefnogodd y Pwyllgor y rhaglen arfaethedig a'r amcangyfrif ariannol. Gofynnodd yr aelodau i Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried cynnwys yn y rhaglen archwiliad o'r defnydd a wneir ar adnoddau'r GIG i wneud gwaith ymgynghori preifat.

**Eitem 4: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio *'Parhau i Adfywio Bae Caerdydd'***

**Papur:** AC(2) 04-03(p5), AC(2) 04-03(p5)

4.1 Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth yr aelodau bod ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r adroddiad yn ymdrin â'r holl bryderon ac yn derbyn holl argymhellion yr adroddiad. Byddai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am hynt adolygiad arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru o fuddsoddi arian cyhoeddus ym Mae Caerdydd.

**Eitem 5: Papur i'w nodi - Llythyr drafft oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio at Brif Weithredwr Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ynghylch y datblygiadau ym maes caffael yn y sector addysg bellach**

**Papur:** AC(2) 04-03(p6)

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor y llythyr drafft.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur:**AC(2) 03-03(min)

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 7: SESIWN BREIFAT - Adroddiad drafft y Pwyllgor Archwilio ar Gyllidebau'r GIG yng Nghymru yn 2003.**

**Papur:** AC(2) 04-03(p8)

7.1 Penderfynodd y pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21 (vi).

7.2 Ystyriodd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar Gyllidebau'r GIG yng Nghymru yn 2003, ac fe'i cymeradwyodd.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Hydref 2003**